

Gwers 1 – Duw yn creu'r byd

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Genesis 1:1–31

Ystyr y gair Groeg, Genesis, yw 'dechreuad', ac y mae llyfr Genesis yn dechrau 'yn y dechreuad', hynny yw, dechreuad popeth, ond nid dechreuad Duw. Mae awdur llyfr Genesis yn dweud wrthym o ble y daethom a pham yr ydym yn bod. Dechreuad popeth yw Duw, ac yntau'n Dduw creadigol. Neges ganolog Genesis 1 yw nad damwain na hap mo'r cyfanfyd, sy'n cynnwys y byd yr ydym ni'n byw ynddo, ond gweithred fwriadol ar ran Duw. Daeth y cyfan i fod, yn cynnwys ni, oherwydd bod Duw wedi bwriadu hynny. Nid oes yr un ohonom yma yn ddamweiniol. Mewn ychydig eiriau, 'Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear', cawn ddatganiad eglur Y Beibl am ddechreuad y cyfanfyd. Ar air Duw, 'Bydded', daeth popeth i fod (gweler hefyd Hebraid 11, adn 3).

Pwy yw Duw y cyfeirir ato gymaint yn y bennod gyntaf?

Yn adnod 26, ceir y gair 'gwnawn' sy'n ein cyfeirio at y Duw hwnnw sy'n Un ac yn Dri, Tad, Mab ac Ysbryd Glân, neu'r Drindod. Awgryma'r gair 'gwnawn' fod trafodaeth wedi bod rhwng y Drindod a chanlyniad hynny oedd mynd ati i greu. Cyfeiriodd rhywun at Dduw'r Tad fel pensaer, Duw'r Mab fel adeiladydd (gweler Ioan 1, adn 1–3), a Duw'r Ysbryd Glân fel harddwr y cyfanfyd. Deuwn ar draws yr Ysbryd Glân yn adnod 2.

Pa mor wyddonol gywir yw Genesis?

Unwaith yr edrychwn ar Genesis fel llyfr gwyddonol awn i drafferthion. Nid yw'n ymwneud â manylion megis sut y creodd Duw'r byd – y deunydd, yr atomau a'r nwyon, y gwahanu a'r casglu (adnodau 3, 4, 6, 7 a 9) – ond yn ymwneud â'r achos yn hytrach na'r broses: Pwy wnaeth y cyfanfyd, nid Sut y'i gwnaeth. Beth bynnag oedd y broses wyddonol a greodd ddyn a'r cyfanfyd – a'r prosesau sy'n cadw'r cyfan i fynd – dywed Genesis mai llaw Duw sydd y tu ôl i'r cyfan. O geisio egluro'r creu yn wyddonol cyfyd rhai problemau.

Mae'n werth cofio, pan edrychwn ar y 'problemau', mai damcaniaethau, nid ffeithiau gwyddonol, yw sail y gwrthwynebiadau i Genesis 1 a 2. Damcaniaethau yw 'esblygiad' a'r 'glec fawr', ac yn wir unrhyw ymdrech arall gan wyddonwyr ac astronomyddion i egluro'r dystiolaeth. Yr unig eglurhad a ellid ei dderbyn yn ddigwestiwn fyddai eiddo rhywun oedd yno ar y pryd. Nid yw Genesis yn egluro sut y gwnaeth Duw bopeth, nid yw'n honni gwybod hynny. Mae'n ateb y cwestiwn, 'Pwy wnaeth y byd?', yn syml, trwy ddweud 'Duw'.


Y Creu – Yr Amserlen

	Dydd	Adnod
GOLEUNI	1	1:3–5
FFURFAFEN	2	1:6–8
DYFROEDD A THIR	3	1:9–13
SÊR ayyb	4	1:14–19
PYSGOD AC ADAR	5	1:20–23
ANIFEILIAID A DYN	6	1:24–31
GORFFWYS	7	2:2–3

Chwe diwrnod yn unig?

Ar un llaw, dehonglir y broses yn llythrennol, gan dderbyn bod Duw wedi creu'r cyfan mewn 6 diwrnod 24 awr o hyd. Ar y llaw arall dywedir bod yr awdur yn disgrifio gwaith Duw mewn geiriau symbolaidd a barddonol.

Sylwer bod sawl ystyr i'r gair 'diwrnod' yn yr Hen Destament. Yn ei ffurf symlaf gall olygu 24 awr, ond gall hefyd ddisgrifio moment benodol fel 'dydd yr Arglwydd'. Yn Salm 90, adn 4, dywedir bod 'mil o flynyddoedd' i Dduw megis diwrnod.



Creodd Duw gardd
brydferth yn gartref
i Adda ac Efa. Weli di
eliffant? Teigr? Mwnci?
Neidr? Pili Pala? Beth
yw dy hoff anifail? Fedri
di dynnu llun ohono?
Beth am gludo sgleiniau
ar y llun i'w addurno ac
wedyn a'i ludo ar ddarn
o gerdyn gyda darn o
ruban i'w hongian.

Diolch Dduw am greu
byd hardd, yn llawn
anifeiliaid a phlanhigion
a phobl a bob math.
Amen

Gwers 1 – Duw yn creu'r byd

Hanes Y Creu | Beibl Newydd y Plant tud. 12–20

(Genesis 1–3)



Gwers 1

Duw yn creu'r byd

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN 7 oed.

Duw yn creu'r byd tud 10

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DROS 7 oed.

Yr ardd Brydferth tud 10

BEIBL LLIW STORI DUW

Yn y dechrau tud 12

Y Byd Prydferth tud 12

BEIBL BACH STORI DUW

Yn y dechrau – cartref perffaith, tud 18

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Yn y Dechrau tud 8

BEIBL LLIW Y PLANT

Y creu tudalen 18

BEIBL NEWYDD Y PLANT.

Duw'n creu golau ac awyr tud 12.

Duw'n creu tir, mor a phlanigion tud 13.

Duw'n creu sêr a phlanedau tud 14

Duw'n creu'r haul tud 15.

Duw'n creu anifeiliaid tud 16

Mae Duw yn fy nabod tud 17.

Y Bobl gyntaf tud 18 a 19

BEIBL BACH I BLANT

Dechrau'r Byd tud 10

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau.

Hanes y creu tud 11

Duw yn creu pobl tud 12

BEIBL LLIW Y TEULU

Y Creu tud 14

Amser Chwarae

Bydd angen pridd, potiau bach, llwyau, hadau, dŵr a phapur newydd. Hefyd, llyfr yn dangos lluniau o blanhigion/coed, amrywiaeth o ffrwythau a chyllell.

Gadewch i'r plant chwarae gyda'r pridd am ychydig, e.e. yn llenwi'r potiau gyda phridd a'i dywallt i bot mwy cyn eu helpu i blannu hedyn a'i ddyfrio.

Dangoswch amrywiaeth o ffrwythau i'r plant a'u torri i ddatguddio'r hadau tu mewn. Trafodwch sut mae gan bob planhigyn hadau a sut mae planhigion newydd yn tyfu. Dangoswch lyfr planhigion i'r plant gan dynnu eu sylw at yr amrywiaeth anhygoel. Esboniwch ein bod am glywed heddiw sut y bu i Dduw greu gardd yn llawn blodau a phlanhigion hyfryd amser maith yn ôl.

Neu, beth am chwarae toes gyda'r plant, yn eu hannog i GREU gwahanol siapiau a phatrymau?

Amser Stori

Byddwch angen Beibl a phecyn o hadau. Rhowch y pecyn yn y Beibl, yn Genesis 2. Hefyd, potyn o bridd a Beibl Newydd y Plant.

Dangoswch y Beibl i'r plant gan ddweud ei bod yn llyfr arbennig iawn am ei bod yn dweud wrthym am Dduw. Agorwch y Beibl i ddarganfod yr hadau. Eglurwch fod hanes ar ddechrau'r Beibl am Dduw yn creu gardd hyfryd ble tyfir llawer o blanhigion hardd.

Dywedwch, 'Amser maith yn ôl roedd y ddaear yn wag' – dangoswch y pot o bridd – 'ond cafodd Duw syniad da iawn. Creodd Duw berson, dyn o'r enw Adda – yn union fel chi a fi. Meddylodd Duw y byddai angen rhywle ar Adda i fyw, felly, creodd Duw ardd berffaith, yn llawn blodau a choed a llysiau ac anifeiliaid. Dywedodd Duw wrth Adda bod yr ardd yn gartref iddo a'i fod i fyw yn ardd ac edrych ar ei hôl, ac i dyfu planhigion yn fwyd. Doedd Duw ddim am i Adda fod yn unig, felly creodd ddynes o'r enw Efa i fyw yn yr ardd gydag ef.'

Dangoswch y llun o dudalen 20 o Beibl Newydd y Plant a darllenwch yr hanes. Ydy'r plant yn credu bod Duw wedi creu lle hardd i Adda ac Efa? Ydyn nhw'n credu bod Adda ac Efa'n hapus yno?

Rhigwm

Esboniwyd wrth y plant eu bod i ymuno gyda'r geiriau, "Mae hyn yn dda iawn." (Mae'r symudiadau mewn italics).

Nôl yn y dechrau,
Doedd dim ond tywyllwch, (Cau llygaid yn dynn)
Tywyllwch du, du, du.

Cafodd Duw syniad,
Creodd oleuni, (Agor llygaid ac ymestyn i'r awyr)
A dywedodd Duw, "Mae hyn yn dda iawn."
(Edrych o gwmpas a nodio pen)

Uwchben yr awyr, (Edrych i fyny)
Islaw, y môr, (Creu tonnau'r môr gyda dwylo)
A dywedodd Duw, "Mae hyn yn dda iawn."
(Edrych o gwmpas a nodio'r pen)

Nesaf, y tir,
Blodau a choed, (plygu i lawr a thyfu fel planhigion)
A dywedodd Duw, "Mae hyn yn dda iawn."
(Edrych o gwmpas a nodio'r pen)

Ac yn yr awyr,
Yr haul, a'r lloer a'r sêr, (Defnyddio'r dwylo fel sêr yn disgleirio)
A dywedodd Duw, "Mae hyn yn dda iawn."
(Edrych o gwmpas a nodio'r pen)

Llenwi'r môr a'r awyr
Gyda physgod ac adar o bob siâp a lliw,
(Symud dwylo fel pysgod neu adar)
A dywedodd Duw, "Mae hyn yn dda iawn."
(Edrych o gwmpas a nodio'r pen)

Beth sydd angen nawr
Ydi anifeiliaid a phobl i ofalu,
(Symud o amgylch yr ystafell fel anifeiliaid)
A dywedodd Duw, "Mae hyn yn dda iawn."
(Edrych o gwmpas a nodio'r pen).

Amser gorffwys, (ystum cysgu)
Mae'r byd wedi'i greu, (tynnu llun cylch mawr yn yr awyr)
A dywedodd Duw, "Mae hyn yn dda iawn."
(Edrych o gwmpas a nodio'r pen)

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 7-11

Gwerslyrau Golau ar y Gair

Dechrau'r Byd: Hanes y Creu

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A - Y Creu

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 1: Yn y Dechreuad

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 262

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 1: Dechrau'r Byd

Llyfrau Stori

Cyfres Fi Hefyd - Rhywun i'w garu
£1.25

Hanes y Creu £5.95

Y Creu a'r Dilyw £4.99

Duw Wnaeth y Byd 99c

Yr wythnos Brysur £6.95

